



## Adroddiad Arolygu

**Sasha Griffiths**

**Rhydaman**



**Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad**

31/5/2022

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.**

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gwarchodwr plant
Lleoedd cofrestredig	6
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	21 Chwefror 2017
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth.

<a href="#"><u>Llesiant</u></a>	<b>Da</b>
<a href="#"><u>Gofal a Datblygiad</u></a>	<b>Da</b>
<a href="#"><u>Yr amgylchedd</u></a>	<b>Da</b>
<a href="#"><u>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</u></a>	<b>Digonol</b>

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## **Crynodeb**

Mae plant yn teimlo yn ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus iawn yn y lleoliad hwn. Maent yn chwarae'n rhydd ac yn mynegi eu hunain yn arbennig o dda. Mae'r plant yn dewis teganau a gweithgareddau o'r detholiad sydd ar gael. Mae gan y plant berthynas dda iawn â'i gilydd a gallant gefnogi ei gilydd.

Mae gan y lleoliad ystod o bolisïau ar waith sy'n hyrwyddo llesiant y plant. Ceir awyrgylch gofalgar ac mae'r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion unigol y plant yn llwyddiannus. Mae ystod o weithgareddau ar gael dan do ac yn yr awyr agored, i blant gael mynediad iddynt yn annibynnol neu gyda chymorth gan y gwarchodwr plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad. Mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes, ac yn hygyrch i bawb. Mae asesiadau risg addas a gwiriadau diogelwch ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ystod o adnoddau difyr, sy'n ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan. Mae gan y gwarchodwr plant ystod fuddiol o bolisïau a gweithdrefnau. Mae cyfathrebu â rhieni yn effeithiol. Rydym wedi nodi un maes i'w wella mewn perthynas ag amlder ymarferion tân a phedwar argymhelliad ar ddiwedd yr adroddiad.

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn mynegi eu hunain yn dda. Anogir plant i “ddefnyddio eich geiriau” i ofyn cwestiynau. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn i ni, “*am ba mor hir ydych chi yma?*”. Chwaraeant yn rhydd a gwnânt ddewisiadau am y teganau a'r gweithgareddau y maent yn chwarae â nhw o'r detholiad sydd ar gael. Maent yn gofyn cwestiynau yn aml ac yn cychwyn sgwrs a chânt ymatebion priodol iddynt. Er enghraifft, cychwynnodd un plentyn sgwrs am archarwyr a chafodd y cwestiynau eu hystyried yn ofalus ac ymatebodd y gwarchodwr plant iddynt.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi. Maent wedi ymgartrefu'n dda ac wedi ymlacio. Mae'r plant yn gwybod y drefn yn dda. Er enghraifft, amser byrbryd ac wrth olchi dwylo. Mae'r plant yn derbyn gofal gan warchodwr plant sy'n eu hadnabod yn dda iawn. Clywsom blant yn siarad yn frwdfrydig â'r gwarchodwr plant am eu diddordebau. Er enghraifft, siaradodd un plentyn am ei chwilfrydedd am fagnetau, a soniodd un arall am ei ddiddordeb mewn deinosoriaid.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n llwyddiannus, gan gydweithio a rhannu gyda'i gilydd. Mae'r plant yn chwarae gyda'i gilydd yn bwrpasol yn ystod gêm o 'Fwrw Caniau Tun' am gyfnod hir o amser. Maent yn gwenu, yn chwerthin, ac yn trafod y gêm, gan awgrymu gwelliannau a fyddai'n cynyddu eu llwyddiant. Yn ystod amser chwarae awyr agored, mae un plentyn yn dyner ac yn ystyriol o ddiogelwch plentyn iau sy'n ymuno â fe ar sedd siglo.

Mae'r plant yn dewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt yn hyderus. Maent yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, roedd y plant yn gyffrous i ddweud wrthym am y penbyliaid a gasglwyd yn ddiweddar a'u dangos i ni. Mae'r plant yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau a wneir ac yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rhydd a rhai wedi'u cynllunio, dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn dewis teganau yn rhydd a gofynnir iddynt a hoffent chwarae y tu allan. Defnyddia'r plant offer ac adnoddau yn fedrus. Gwelsom blant yn archwilio magnetau yn gymwys ac yn arbrofi ar rymoedd atyniad / gwrthyriad.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda, sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, gwelsom blant yn tacluso mewn modd trefnus. Maent yn cael mynediad hyderus i deganau ac adnoddau o storfa lefel isel ac yn bwydo eu hunain yn ystod amser bwyd. Mae'r plant yn defnyddio'r ystafell ymolchi yn annibynnol ac yn magu hyder wrth ymolchi eu dwylo eu hunain.

Mae gan y gwarchodwr plant bolisiau pwrpasol yn eu lle sy'n hybu diogelwch a llesiant y plant. Mae ganddi weithdrefnau ar waith i ddiogelu'r plant, ac roedd yn ateb sefyllfaoedd amddiffyn plant yn briodol. Roedd hyfforddiant y gwarchodwr plant ar ddiogelu wedi dyddio ar adeg ein hymweliad. Fodd bynnag, cafodd hyn ei unioni'n gyflym yn dilyn ein hymweliad. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu iechyd y plant yn llwyddiannus. Mae ganddi dystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol. Mae systemau ar waith i gofnodi damweiniau/digwyddiadau a rhoi meddyginiaeth. Mae arferion hylendid effeithiol ar waith, ynghyd â threfn glanhau rheolaidd. Er enghraifft, mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi plant wrth ymolchi eu dwylo cyn amser cinio. Mae'r bwrdd yn cael ei lanhau rhwng gweithgareddau a chyn, ac ar ôl bwyd. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod rhieni'n darparu byrbrydau boreol a phrydau i'r plant, a'i bod hi'n darparu byrbrydau ffrwythau achlysurol.

Mae gan y gwarchodwr plant bolisi rheoli ymddygiad ar waith. Mae'r rheolau ymddygiad yn cael eu harddangos yn glir i'r plant ac yn canolbwyntio ar ymddygiad cadarnhaol. Mae hi'n dilyn y polisi ac yn defnyddio'r strategaethau rheoli yn briodol, gan ganmol plant am eu hymddygiad da ac annog moesau da. Er enghraifft, clywsom y gwarchodwr plant yn canmol ymddygiad da a chymryd tro yn gyson, gydol ein hymweliad. Mae hi'n fedrus iawn wrth ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol. Dyma gryfder gwirioneddol y gwarchodwr plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Mae hi'n adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddi ddealltwriaeth dda o anghenion a threfniadau unigol pob plentyn. Mae hi'n amrywio'n hyderus yr iaith a ddefnyddir ganddi wrth drafod â phob plentyn, gan ystyried eu hoedran a'u cyfnod datblygiad yn ofalus. Er enghraifft, siaradodd am ddatblygiad corfforol y penbwl ag un plentyn ac amrywiodd ei sgwrs i lefel hygyrch â phlentyn iau. Mae hi'n cynnwys y plant mewn amrywiaeth o weithgareddau, dan do ac yn yr awyr agored. Mae hi'n cefnogi'r plant yn eu chwarae rhydd, gan ddefnyddio cyfleoedd achlysurol i ymestyn trafodaeth a chyfleoedd dysgu. Yn yr awyr agored, mae'r plant yn cael eu cefnogi i greu eu gemau eu hunain. Er enghraifft, gwelsom blentyn hŷn yn dychmygu a pharatoi gêm darganfod y deinosor ar gyfer plentyn iau, wedi'i gefnogi a'i annog gan y gwarchodwr plant. Mae hi'n datblygu themâu ac yn cynllunio gweithgareddau ymlaen llaw ar gyfer y plant. Fodd bynnag, nid yw'n asesu'r plant ac yn cynllunio ar gyfer eu camau nesaf.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r drws ffrynt dan glo ac yn cadw cofnod o'r ymwelwyr â'r safle. Mae hi'n cynnal ymarferion tân o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, mae angen cynnal y rhain yn rheolaidd fel bod plant yn ymwybodol o'r gweithdrefnau. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae hi'n goruchwyllo'r plant yn dda ac yn deall y gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol ar gyfer grŵp oedran y plant y mae hi'n gofalu amdano. Mae hi'n cwblhau asesiad risg dyddiol ar gyfer yr amgylchedd. Fodd bynnag, nid oes ganddi asesiad risg ysgrifenedig ar gyfer gweithgareddau rheolaidd y mae hi'n eu gwneud gyda'r plant.

Mae adeilad y gwarchodwr plant yn olau, yn groesawgar ac yn drefnus. Mae ystafell chwarae ac ystafell ymolchi newydd a ychwanegwyd at yr eiddo yn ddiweddar o safon uchel ac yn addas i blant. Yn y brif ystafell chwarae, mae dodrefn lefel isel a storfa hygyrch sy'n cynnwys teganau ac adnoddau ac mae lle ar y llawr i chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd gyda'r plant i'r ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod sy'n lân ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Mae ardal chwarae awyr agored ddiogel sydd mewn cyflwr da ac yn cynnig cyfleoedd diddorol i'r plant. Mae'r plant yn dewis o ystod o adnoddau gan gynnwys gweithgareddau amlsynhwyraidd, cerbydau i'w gyrru, wal ddringo, siglen a thŷ chwarae pren newydd ei adeiladu.

Y tu mewn i'r adeilad, mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ystod dda o deganau ac offer chwarae o safon ar gael i'r plant sy'n gweddu i'w hanghenion unigol. Mae gosodiad a dyluniad yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Mae teganau ac adnoddau'n cael eu storio mewn blychau storio priodol y mae'r plant yn mynd atynt eu hunain neu y mae'r gwarchodwr plant yn eu tynnu allan pan fydd plant yn gofyn am deganau allan o gyrraedd. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn apelgar, yn llawn o weithgareddau diddorol ac offer chwarae. Mae hi'n hybu amrywiaeth trwy'r adnoddau a'r gweithgareddau sydd ar gael i'r plant. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym am weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg ei gwasanaeth yn dda. Mae hi'n drefnus ac yn cadw'r holl gofnodion gofynnol. Mae gan y gwarchodwr plant ddogfennau car cyfredol a thystysgrifau fel yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac mae wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae datganiad o ddiben sylfaenol yn ei le. Fodd bynnag, mae angen diweddarau hwn i ddarparu gwybodaeth fwy cywir am y gwasanaeth. Mae gan y gwarchodwr plant bolisiau buddiol, hawdd eu darllen, ar waith. Fodd bynnag, ni ddarperir unrhyw fanylion mewn perthynas â diweddarau ac adolygu'r polisiau.

Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ac yn myfyrio ar ei gwasanaeth ac yn cynhyrchu adroddiad ansawdd gofal sylfaenol. Mae hi'n ceisio gwybodaeth gan rieni a phlant i'w helpu i werthuso ei gwasanaeth. Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod y rhieni a'r plant yn hapus. Mae'r gwarchodwr plant yn myfyrio ar ei darpariaeth ac mae ganddi gynlluniau ar waith i ddatblygu a gwella ei gwasanaeth. Er enghraifft, mae hi bellach yn cyfarfod â gwarchodwyr plant lleol eraill ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol fel parti Jiwbil i'r plant yn dilyn llacio cyfyngiadau COVID-19.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol â rhieni ac ysgolion lleol. Mae hi'n hyblyg ac yn rhoi cymorth i rieni sydd angen cymorth a sicrwydd ychwanegol. Mae hi'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni yn rheolaidd trwy negeseuon llafar, preifat, a negeseuon cyfryngau cymdeithasol. Mae'r gwarchodwr plant hefyd wedi ailgyflwyno taflenni gwybodaeth dyddiol yn dilyn cais mewn holiadur diweddar i rieni.



## **Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

- A1. Datblygu gwaith cynllunio i gynnwys cyfleoedd i asesu'r plant a chynllunio ar gyfer eu camau nesaf.
- A2. Diweddarau'r datganiad o ddiben i sicrhau ei fod yn adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth.
- A3. Sicrhau bod asesiadau risg ar waith ar gyfer pob gweithgaredd.
- A4. Cynnwys tystiolaeth o adolygu pob polisi.

### Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
<b>Ni chyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

### Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
38	Nid yw'r darparwr yn cynnal ymarferion tân ar adegau addas.	Newydd

Sgoriau	Ystyr y sgoriau
<b>Rhagorol</b>	Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
<b>Da</b>	Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
<b>Digonol</b>	Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
<b>Gwael</b>	Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.

**Dyddiad cyhoeddi 05/08/2022**